

SL(5)738 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn dweud, yn dilyn cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Biaddiogelwch, y dylai'r cyfyngiadau presennol sydd ar waith, mewn ymateb i straen newydd o'r coronafeirws a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica ym mis Rhagfyr 2020, barhau i fod ar waith ac, fel a dull rhagofalus, y dylid estyn y mesurau hyn i Weriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig.

Mae rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Rheoliad 2 yn ychwanegu Gweriniaeth Burundi, Gweriniaeth Rwanda a'r Emiraethau Arabaidd Unedig at y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn Atodlen 3A sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau hynny.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod yn y gwledydd hynny o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn i'r Rheoliadau ddod i rym, ac ar bobl o'r un aelwyd.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiweddariadau technegol a chywiriadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 29 Ionawr 2021.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2 Chwefror 2021

